

27/03/2023

Annwyl riant/gofalwr,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor hoffwn eich diweddarau ar ddatblygiadau yn yr ysgol a rhannu rhai dyddiadau allweddol gyda chi.

Gweithgareddau a Digwyddiadau.

Mae wedi bod yn dymor eithriadol o brysur a chyffrous yn allgyrsiol. Mae llawer o'n disgyblion wedi cynrychioli'r ysgol ar draws nifer o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a diwylliannol ac rydym yn falch iawn o allu rhannu'r manylion hynny gyda chi yn ein cylchlythyr tymhorol, 'Bwletin Bro Gwaun'. Fe fydd pob plentyn yn cael copi o'r cylchlythyr cyn diwedd y tymor. Rydym yn falch iawn o holl ymdrechion ein disgyblion a gofynnaf ichi gymryd ychydig o amser i ddarllen am eu campau a'u llwyddiannau. Da iawn i chi gyd!

Adolygu arholiadau TGAU.

Ein ffocws dros yr ychydig wythnosau nesaf fydd i sicrhau bod ein disgyblion arholiadau TGAU yn cael eu cefnogi'n llawn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau. I gefnogi hyn, rydym wedi cynhyrchu rhaglen adolygu gynhwysfawr ar gyfer y Pasg ac ar ôl ysgol. Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl ym mlynnyddoedd 10 neu 11, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu pob un o'r dosbarthiadau adolygu rydym yn eu cynnal rhwng nawr a'r arholiadau. Rydym wedi rhoi manylion y rhaglen i'ch plentyn/plant. Gellir dod o hyd iddynt hefyd ar ein gwefan neu drwy ddilyn y ddolen isod.

<https://ysgolbrogwaun.com/en/resources-community/arholiadau-examinations/>

Noson Datgloi i rhieni Blwyddyn 10 - Dydd Mawrth 18 Ebrill.

Rydym yn bwriadu cynnal noson i gefnogi rhieni disgyblion Blwyddyn 10, a fydd yn sefyll arholiadau TGAU am y tro cyntaf yr haf hwn. Ffocws y noson fydd i rhoi arweiniad i chi fel rhieni ar adolygu a strategaethau cefnogi i helpu i gael y gorau o'ch plentyn/plant wrth iddynt eistedd arholiadau allanol am y tro cyntaf. Mae'r noson yn adeiladu ar ddigwyddiadau blaenorol tebyg yr ydym wedi'u cynnal yn llwyddiannus gyda rhieni. Cadwch olwg am y gwahoddiad ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y 18fed.

Presenoldeb.

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y gorau allan o'r addysg a ddarperir. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mynychu'n dda ac mae ein canlyniadau TGAU yn adlewyrchu'n agos ein cyfraddau presenoldeb da. Mae ein cyfradd presenoldeb ysgol gyfan ar hyn o bryd bron yn 91%, ac er ei fod yn ddarlun sy'n gwella, a'n bod yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill, mae hyn dal yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i dargedu absenoldebau cyson rhai disgyblion a byddwn yn parhau i atgoffa pob riant/gofalwr a'u plentyn/plant o bwysigrwydd presenoldeb da. A fydddech cystal â'n cefnogi i sicrhau bod eich plentyn/plant yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r ysgol.

PTO

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



Gwisg Ysgol.

Mae hyn yn ein hatgoffa bod disgyblion, yn ystod tymor yr haf, yn cael y dewis o wisgo gwisg haf crys polo gwyrdd yn lle'r crys gwyn a thei. Bydd yr holl ofynion gwisg eraill fel siwmpwr ddu, esgidiau du a gemwaith yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer tymor yr haf.

Cyfarpar.

Yn anffodus, rydym yn gweld bod nifer cynyddol o ddisgyblion sydd ddim yn dod ag offer fel beiros, pensiliau a phrenau mesur i'r ysgol. Mae offer sylfaenol fel hyn yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at y gwaith, ac i sicrhau eu bod yn perfformio hyd eithaf eu galluedd. Gofynnwn yn garedig i chi wirio'ch plentyn(ren) bod ganddo'r offer angenrheidiol yn rheolaidd.

Dyddiadau allweddol ar gyfer yr hanner tymor nesaf. (Nodwch y Gŵyl Banc ychwanegol ar yr 8ed o Fai)

Dydd Gwener Mawrth 31ain – Diwrnod olaf y Tymor

Dydd Llun Ebrill 17eg - Diwrnod HMS Sir-gyfan - **dim ysgol i ddisgyblion**

Dydd Mawrth Ebrill 18fed – Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol a noson strategaethau adolygu Blwyddyn 10 i rieni blwyddyn 10.

Dydd Llun Mai 1af - Gŵyl Banc Calan Mai.

Dydd Llun Mai 8fed – Gŵyl Banc Coroniad y Brenin

Dydd Gwener Mai 12fed - arholiadau TGAU yn dechrau

Dydd Mercher Mai 24ain - Diwrnod Iechyd Blwyddyn 8

Dydd Llun Mai 29ain – Wythnos Hanner Tymor y Sulgwyn

Dydd Llun Mehefin 5ed – Disgyblion yn dychwelyd i'r Ysgol

Yn dilyn hanner tymor y Sulgwyn, bydd Blwyddyn 9 yn cychwyn ar eu hamserlen opsiynau TGAU.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn Pasg diogel a phleserus i chi.

Paul Edwards